# Cymru - ystadegau am glefydau'r galon a chylchrediad y gwaed gan y British Heart Foundation (BHF)

Mae ystadegau iechyd yn rhoi syniad i'n staff, ein gwirfoddolwyr, ein cefnogwyr a'n rhanddeiliaid o faint yr heriau sy'n ein hwynebu.
Seilir yr ystadegau a welir yma ar arolygon swyddogol a ffynonellau dibynadwy eraill.

Dim ond ychydig o'n hystadegau ar gyfer Cymru sydd yma. Gallwch droi unrhyw un ohonynt yn jpeg trwy ei chwyddo a defnyddio Snipping Tool neu Paint.

Mae tua **340,000** o bobl yn byw gyda chlefydau'r galon a chylchrediad y gwaed yng Nghymru

Mae dros **110,000** o bobl yn byw gyda chlefyd coronaidd y galon yng Nghymru

Mae dros 42,000 o bobl yng Nghymru wedi cael diagnosis o fethiant y galon gan eu meddyg teulu

Bob mis, caiff tuag 18 o fabanod yng Nghymru ddiagnosis o ddiffyg cynhenid ar y galon

Mae dros 70,000 o bobl sy'n byw yng Nghymru wedi cael strôc

Mae dros **80,000** o bobl yng Nghymru wedi cael diagnosis o ffibriliad atrïaidd

Bob **100 munud** caiff rhywun yng Nghymru ei dderbyn i'r ysbyty oherwydd trawiad ar y galon

Ers sefydlu'r BHF, mae nifer y marwolaethau o glefydau'r galon a chylchrediad y gwaed yng Nghymru bob blwyddyn wedi gostwng i tua'r hanner

Mae clefydau'r galon a chylchrediad y gwaed yn achosi tua 27 o farwolaethau bob dydd yng Nghymru

Mae clefydau'r galon a chylchrediad y gwaed yn lladd 1 o bob 4 o bobl Cymru

Bob blwyddyn, mae tua **2,900** o bobl yn marw cyn pryd o glefydau'r galon a chylchrediad y gwaed yng Nghymru

Bob **140 munud** mae rhywun yng Nghymru'n marw o glefyd coronaidd y galon

Bob blwyddyn mae tua 2,800 o bobl yng Nghymru yn cael ataliad y galon yn rhywle heblaw ysbyty

Yng Nghymru, dim ond 1 o bob 20 o bobl sy'n byw ar ôl ataliad y galon yn rhywle heblaw ysbyty

Cyn sefydlu'r BHF, roedd y rhan fwyaf o fabanod oedd yn cael diagnosis o glefyd cynhenid difrifol ar y galon yn marw cyn eu pen-blwydd cyntaf

Heddiw yn y Deyrnas Unedig, diolch i waith ymchwil, mae mwy na 4 o bob 5 yn byw i fod yn oedolion

Mae gan tua 30,000 o bobl Cymru amrywiolyn genetig a all achosi cyflwr etifeddol ar y galon

Mae gan rwy 16,000 o bobl yng Nghymru gyflwr etifeddol ar y galon

Mae cyfanswm cost blynyddol gofal iechyd clefydau'r galon a chylchrediad y gwaed yng Nghymru yn **£770 MILIWN**

Bob blwyddyn, mae cyfanswm cost economaidd clefydau'r galon a chylchrediad y gwaed yng Nghymru tua **£1.6 BILIWN**

## Cyswllt rhwng y clefydau

Mae pobl sydd â diabetes ddwywaith yn fwy tebygol o gael strôc

Mae pobl sydd â hanes o glefyd coronaidd y galon yn y teulu gryn dipyn yn fwy tebygol o gael dementia fasgwlaidd

Yn y Deyrnas Unedig, mae un o bob tri o'r oedolion sydd â diabetes yn marw o un o glefydau'r galon a chylchrediad y gwaed

Mae pobl sydd â methiant y galon ddwy neu dair gwaith yn fwy tebygol o gael strôc

Yng Nghymru, mae dros hanner yr achosion o drawiad ar y galon a strôc yn gysylltiedig â phwysedd gwaed uchel

Mae dementia fasgwlaidd ar tua 180,000 o bobl y Deyrnas Unedig

## Ffactorau Risg

Mae tua **530,000** o bobl yng Nghymru wedi cael diagnosis o bwysedd gwaed uchel

Mae dros 220,000 o oedolion Cymru wedi cael diagnosis o ddiabetes

Mae tua **26%** o oedolion Cymru yn ordew

Mae tua **25%** o blant blwyddyn derbyn yng Nghymru â BMI a ddiffinnir fel dros bwysau neu gordew

Nid yw tua **45%** o oedolion Cymru'n gwneud cymaint o ymarfer corff ag yr argymhellir

Mae o leiaf **13%** o oedolion Cymru'n smygu

Mae bron **900** o farwolaethau o glefydau'r galon a chylchrediad y gwaed yng Nghymru bob blwyddyn yn cael eu cysylltu â smygu

## ... gair am y BHF

Rydym yn ariannu MWY o waith ymchwil i glefydau'r galon a chylchrediad y gwaed na'r un corff annibynnol arall yng Nghymru

Adolygwyd a diweddarwyd ym mis Ionawr 2025.
Disgwylir yr adolygiad nesaf yn nes ymlaen yn 2025.

*Ar gael yn Saesneg hefyd - also available in English*

Gwelir y cyfeiriadau ar ein taflenni yn:
*https://www.bhf.org.uk/statistics*

Sut y gallwch chi helpu:
*https://www.bhf.org.uk/how-you-can-help*

Cysylltwch â ni os oes gennych ryw gwestiwn:
*healthinsights@bhf.org.uk*